**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

Drwy e-bost: SeneddIechyd@senedd.cymru

28 Chwefror 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Chwefror ynghylch y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memoranda Rhif 2 a Rhif 3) ar y Bil Iechyd a Gofal (y Bil) a'm hymateb i ar 15 Chwefror i adroddiad eich Pwyllgor chithau ar 14 Chwefror.

Rydych wedi codi dau fater y byddaf yn mynd i'r afael â hwy yn eu tro isod.

Yn gyntaf, y ddarpariaeth yn y Bil i roi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i ddwyn i rym y gwelliannau i adran 88 o Ddeddf 2006 y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 2. Ymddiheuraf os nad oedd fy llythyr dyddiedig 15 Chwefror yn ddigon clir yn hyn o beth. Dylai'r llythyr fod wedi datgan yn fwy cywir fod cydsyniad y Senedd, yn unol â'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, yn cael ei geisio mewn perthynas **â darpariaethau yn y Bil Iechyd a Gofal i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**, yn hytrach na'i chydsyniad ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Ymddiheuraf am unrhyw ddryswch o ganlyniad i hyn. Fodd bynnag, fel sy'n digwydd fel arfer yn achos Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, roedd cydsyniad y Senedd yn cael ei geisio ar gyfer y darpariaethau gyda'i gilydd – mae hyn yn dal i fod yn wir. Nid wyf yn cytuno bod unrhyw amwysedd ynghylch yr hyn yr oedd gofyn i'r Senedd roi ei chydsyniad ar ei gyfer.

Yn ail, rydych wedi gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â'm barn bod cymalau yn y Bil, sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio deddfwriaeth gan y Senedd sy'n ganlyniadol i ddarpariaethau'r Bil, yn peri mân risg gyfansoddiadol. Yn benodol, ynghylch fy mhenderfyniad i beidio â mynd ar drywydd gwelliant i'r Bil i eithrio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 o unrhyw ddiwygiadau canlyniadol a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau hyn.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y gwyddoch, gwnaed y penderfyniad i argymell rhoi cydsyniad y Senedd mewn perthynas â’r darpariaethau hyn yn dilyn ystyriaeth fanwl. Mae'r casgliad y deuthum iddo fod y darpariaethau yn cynrychioli mân risg gyfansoddiadol, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 3 a'm llythyr dyddiedig 14 Chwefror, yn seiliedig ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y defnydd a fwriedir ar gyfer y pwerau, gweld enghreifftiau o'r defnydd tebygol o'r pwerau a'r Datganiad gerbron y Blwch Dogfennau a wnaed yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Chwefror gan yr Arglwydd Kamall. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau'n benodol nad oes ganddi unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau, sy'n ganlyniadol i'r Bil, i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr ymrwymiadau a roddwyd gan Lywodraeth y DU.

Hoffwn bwysleisio unwaith eto nad Llywodraeth y DU yn unig sy’n ymarfer fel hyn. Rydym wedi gwneud darpariaeth debyg mewn Deddfau gan y Senedd i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU.

Gyda'i gilydd, dyma'r ffactorau a oedd yn sail i’r casgliad y deuthum iddo a'm penderfyniad i beidio â mynd ar drywydd gwelliant i'r Bil yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, y Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ac at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services